

Adeiladu ar gyfer y Dyfodol

Cynorthwyo i adfywio canol trefi gan gefnogi strategaeth economaidd ranbarthol neu drefol drwy geisio adnewyddu neu aildatblygu adeiladau a thiroedd nad ydynt yn cael eu defnyddio yng nghanol trefi a dinasoedd ledled Cymru (WWV), creu swyddi a gwella sgiliau yn yr ardal ac ysgogi twf

Cyrchfannau Denu Twristiaeth

Darparu nifer fechan o brosiectau isadeiledd twristiaeth strategol wedi'u blaenoriaethu'n rhanbarthol a fydd yn gymorth i wella ansawdd ac ymwybyddiaeth o gyrchfannau yng Nghymru ac annog buddsoddiad busnes a thwf cyflogaeth yn y sector twristiaeth yn y rhanbarth.

Mewnlenni Band Eang Cyflym iawn - Darparu cysylltiad cyflym iawn mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd, lle nad yw darpariaeth fasnachol yn economaidd hyfyw. (Ledled Cymru)

Band Eang Gwibgyswllt - Yn defnyddio datrysiad technoleg a elwir yn Ffibr i'r Eiddo (FTTP). I gynhyrchu isadeiledd cyfathrebu pwerus ar gyfer y dyfodol, drwy rwydwaith ffibr. Bydd y gwasanaeth yn cynnwys aelwydydd a busnesau. (Ledled Cymru)

Mynediad at Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf - Yn canolbwyntio ar yr eiddo sy'n weddill sy'n rhan o'r garfan olaf sydd heb dderbyn cysylltiad Cyflymu Cymru a chysylltiad masnachol e.e. datblygiadau adeiladau newydd. Yn darparu mynediad fforddiadwy a datblygu economi ddigidol Cymru.

Blaenoriaeth 4 ERDF: Cysylltedd a Datblygu Trefol

Amcanion Penodol:

- Mynd i'r afael â materion ymylol drwy welliannau i Rwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd
- Cynyddu symudedd llafur a threfol i ac o ganolfannau cyflogaeth trefol allweddol
- Cyfrannu at dargedau'r UE ar gyfer 100% band eang (30Mbps ac uwch i 50% gael mynediad at 100Mbps)
- Cynyddu lefelau cyflogaeth drwy fuddsoddi mewn isadeiledd a flaenoriaethir i gefnogi strategaeth ranbarthol / trefol

Safleoedd Cyflogaeth Strategol

Darparu isadeiledd cynradd a pharatoi gwaith safle ar gyfer datblygu mewn lleoliadau strategol i ddiwallu anghenion a nodwvd / galw am fuddsoddiad.

Cronfa Grant Eiddo ar gyfer Datblygiad Busnes (PBDG)

Cefnogi diogelu a chreu hyd at 660 o swyddi newydd, drwy ddarparu gofod llawr cyflogaeth newydd neu wedi'i adnewyddu

Cronfa Isadeiledd Eiddo

I fynd i'r afael â diffyg eiddo cyflogaeth newydd ac wedi'i adnewyddu, bwriad y Gronfa Isadeiledd Eiddo yw cefnogi darpariaeth gofod llawr cyflogaeth newydd neu wedi'i adnewyddu.

Safle Cyflogaeth Strategol Caergybi

Pecyn o fuddsoddiadau isadeiledd allweddol a fydd yn cadarnhau safle'r dref fel canolbwynt cyflogaeth strategol sy'n gyfoes a bywiog. Wedi'i gyflawni drwy aildatblygu'r safle cyfan ac adeiladu gofod llawr busnes cyfoes yn Ystâd Ddiwydiannol Penrhos (Safle Maes Hofrenyddion), i ddarparu'r cyfleoedd cadwyni cyflenwi o Raglenni Parth Menter ac Ynys Ynni.

Safle Cyflogaeth Strategol Llangefni

Yn darparu Unedau Busnes newydd ar dir llwyd ym Mryn Cefni.

Safle Cyflogaeth Ffordd Penmaen Morfa Conwy

Datblygu tir gydag isadeiledd i alluogi creu 7 llain o dir ac adeilad newydd hapfasnachol.